



# **TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR**

**CYMRAEG AIL IAITH**

**HAF 2009**

## **Gwybodaeth Ystadegol**

Gall yr Adroddiadau Arholwyr gyfeirio'n gyffredinol at ganlyniadau ystadegol. Darperir gwybodaeth ystadegol ar berfformiadau ymgeiswyr yn yr holl gydrannau arholiad (pa un ai ydynt wedi'u hasesu'n fewnol neu'n allanol) pan gyhoeddir y canlyniadau. Yn ogystal â'r marciau a ennillwyd gan ymgeiswyr unigol, gellir cael y wybodaeth ganlynol o'r allbrintiau hyn.

*Ar gyfer pob cydran:* y marc mwyaf, ffactor agregu, marc cymedrig a'r gwriad marciau safonol a ennillwyd gan yr *holl* ymgeiswyr a gofrestrwyd am yr arholiad.

*Ar gyfer y pwnc neu'r opsiwn:* y cofrestrriad cyfan a'r marc isaf sydd ei angen ar gyfer dyfarnu'r pob gradd.

## **Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Darperir gwybodaeth arall ar sail canolfan pan gyhoeddir y canlyniadau. Mae'r *Adroddiad Ystadegol* blynyddol (a gyhoeddir yn ail ran Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol yr holl arholiadau a weinyddir gan CBAC.

## Cymraeg Ail Iaith

### Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd 2009

*Prif Arholwyr: Trefor Lewis B.A., M.Phil, Dewi Lewis B.A.*

#### **Y TASGAU LLAFAR**

##### **(Y Cwrs Llawn a'r Cwrs Byr)**

##### **Y Cyflwyniad Unigol**

Cafwyd y ddau brif gategori arferol yma sef y 'cyflwyniad sgysiol' a'r 'cyflwyniad areithiol'. Nid oes angen ymhelaethu arnynt oherwydd gwnaethpwyd hynny'n gyson yn adroddiadau'r blynyddoedd diwethaf.

Y cyflwyniadau sgysiol sydd fwyaf poblogaidd o bell ffordd, gyda'r athrawon, ar y cyfan, yn cyfrannu'n adeiladol ac yn ddeallus yn ôl yr angen – symbyliad yn awr ac yn y man gyda'r goreuon ond ymyrraeth llawer mwy cyson wrth arholi'r gweiniaid. Mae'r cyflwyniadau sgysiol yma'n tueddu i fod yn llawer mwy naturiol a llai ffug na rhai o'r cyflwyniadau areithiol lle mae dibyniant gormodol ar y cof yn aml. Roedd hi'n amlwg weithiau, oherwydd y camynganu, y camseibiannu a'r cambwysleisio cyson, nad oedd rhai ymgeiswyr yn deall popeth roeddent yn ei ddweud. Mewn rhai achosion roedd seibiannau hir wrth i ymgeisydd geisio cofio'r cyfraniad nesa, a'r athro/athrawes yn gadael iddo ymbalfalu yn y tywyllwch yn hytrach nag ymyrryd a chynnig cymorth iddo/iddi. Wrth gwrs, dylid ymyrryd hefyd os ydy'r athro/athrawes yn sylweddoli nad yw'r ymgeisydd yn ateb gofynion y cynllun marcio – e.e. ddim yn defnyddio amrywiaeth o amserau'r ferf/patrymau brawddegol/cystrawennau ac ati. Felly hefyd os ydy'r 'araith' a ddysgwyd yn rhy fyr – dylai'r athro/athrawes ymuno ar y diwedd drwy gyfrannu a holi er mwyn ymestyn y cyflwyniad. Ar ôl rhai o'r pwyntiau negyddol yna, rhaid pwysleisio i ni dderbyn nifer o gyflwyniadau areithiol rhagorol oedd yn hollol ddilys ac yn ateb holl ofynion y dasg.

Cafwyd cyflwyniadau arbennig yn y ddau gategori – rhai ohonynt, yn sicr, yn ddigon uchelgeisiol a safonol i deilyngu'r graddau uchaf yn y famiaith – a hynny gan wir ddysgwyr. Roedd un, am ymweliad ag America, yn wirioneddol wych. Trueni mawr nad oes mwy o'r 'gwybodusion' yn cael y cyfle i wrando arnynt er mwyn iddynt gael tystiolaeth o'r gwaith anhygoel sy'n cael ei gyflawni gan nifer fawr o athrawon Cymraeg ail iaith. Trueni mawr hefyd bod cynifer o'r ymgeiswyr yma'n diflannu ar ôl sefyll yr arholiad TGAU.

Cafwyd cyflwyniadau hyderus a hynod o ddiddorol yn yr Haen Uwch ar amrywiaeth eang o destunau – cerddoriaeth (testun poblogaidd iawn), problemau'r ifanc, problemau'r ardal, diddordebau megis nofio, cic-focsio, marchogaeth, darllen ac ati, bwyta'n iach a chadw'n heini, arwyr fel Tanni Grey Thompson a llawer mwy. Roedd profiad gwaith a'r ardal yn boblogaidd iawn yn y naill haen a'r llall a thestunau fel rhaglenni teledu, chwaraeon, canu pop, diddordebau a ffrindiau ymhlith ffefrynnau'r Sylfaenol.

Nid oes llawer o resymau dros fod yn or-feirniadol ond dyma rai o'r prif wendidau – yr un gwendidau ag arfer:

- Er i fwy o ganolfannau gadw at y terfynau amser, roedd cyflwyniadau ambell ganolfan yn dal i fod yn rhy fyr, eraill braidd yn hir (er gwaethaf y cyngor a roddwyd yn yr adroddiadau unigol a'r adroddiad yma y llynedd).
- Roedd lleiafrif o ddisgyblion disglair yn gor-ddibynnu ar gwestiynau'r athro/athrawes. Gallent fod wedi gwirfoddoli llawer mwy o wybodaeth. Dylai'r athro/athrawes gyfrannu yn ôl yr angen.
- Roedd rhai athrawon heb holi digon er mwyn creu cyflwyniadau mwy naturiol ac, yn bwysicach, i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ateb gofynion y cynllun marcio ar eu lefel arbennig nhw.
- Roedd rhai o'r 'areithiau' oedd wedi eu dysgu ar gof yn swnio'n annaturiol iawn gyda chamynganu, cambwysleisio a chamseibiannu aml yn cryfhau'r argraff nad oedd yr ymgeiswyr bob amser yn deall popeth roeddent yn ei ddweud.

Ar ôl dweud hynny, fel y llynedd, roedd llawer mwy o rinweddau nag o ffaeledau, a rhaid llongyfarch yr ymgeiswyr unwaith eto am eu hymdrechion.

## **Y Sgwrs Sefyllfa**

Ar y cyfan cyflawnwyd y dasg yma'n well eleni eto. Mae llawer o athrawon wedi gweithredu ar y sylwadau a roddir yn flynyddol yn yr adroddiad hwn ac yn yr adroddiadau unigol. Yn anffodus, anwybyddir y canllawiau gan eraill fel petaent heb dderbyn unrhyw adroddiad.

Fel y llynedd cafwyd sgysiau diddorol iawn yn yr Haen Uwch, gyda'r ymgeiswyr, ar y cyfan, yn cael digon o gyfle i gyflawni'r dasg yn weddol annibynnol gan arwain yn ddeheuig a dangos blaengaredd – fel ydy'r bwriad, wrth gwrs. Yn yr achosion yma dim ond sbardun yn awr ac yn y man a gafwyd gan yr athrawon – digon i sicrhau parhad y sgysiau ac i ddenu ymateb gan yr ymgeisydd pan yn briodol. Cafwyd perswadio argyhoeddiadol iawn gan nifer o'r ymgeiswyr yn yr haen yma. Fodd bynnag, gyda lleiafrif o ganolfannau, cafwyd gormod o holi gan yr athrawon, hyd yn oed yn yr Haen Uwch, ac weithiau fe aeth y dasg yn gyfres o gwestiynau ac atebion. Roedd hyn yn arbennig o wir am y tasgau oedd yn ymwneud â byd gwaith – yn arbennig wrth geisio am swydd. Nid cyfweiliad, gyda'r ymgeisydd yn ateb cyfres o gwestiynau gan yr athro neu'r athrawes yn unig, sydd ei angen.

Rhaid wrth fwy o holi yn y sylfaenol, wrth gwrs, er i nifer o'r ymgeiswyr yma eto ddangos digon o flaengaredd ac arwain yn effeithiol. Soniwyd eisoes am y gorholi mewn ambell ganolfan ond ar y pegwn arall gellid, ac yn wir, dylid fod wedi holi mwy – pan oedd angen cymorth ar yr ymgeisydd. Weithiau byddai ymgeisydd yn gadael rhai o gamau'r dasg allan gan eu hanwybyddu'n llwyr. Byddai ymgeisydd arall, er enghraifft, yn rhoi brawddeg yn unig lle disgwyli'd tair (am y tri marc cynnwys). Mewn achosion o'r fath dylai'r athro/athrawes arwain yr ymgeisydd yn ôl er mwyn ceisio sicrhau bod holl gamau a holl ofynion y dasg yn cael eu cyflawni. Wrth gwrs, mae hyn yn dasg amhosibl weithiau gyda rhai ymgeiswyr - am amrywiaeth o resymau. Mewn un ganolfan cafwyd ymgeiswyr yn gofyn cwestiynau ond yn aros yn ofer am ymateb gan yr athrawes. Rhyfedd!

Defnyddiwyd amrywiaeth eang o sefyllfaodd. Defnyddiodd rhai canolfannau y tasgau a osodwyd ar gyfer cwrs peilot Byw'r Gymraeg y llynedd, eraill y Deunyddiau Enghreifftiol – heb eu newid neu gydag arlliw lleol arnynt i'w gwneud yn fwy perthnasol. Ond, unwaith eto, braf oedd gweld llawer o ganolfannau'n creu deunyddiau eu hunain.

Dyma grynodedb o'r prif wendidau:

- Rhai o'r sefyllfaoedd yn rhy anodd i'r Haen Sylfaenol, eraill yn rhy hawdd i'r Haen Uwch.
- Methiant ar ran yr athrawon i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ymateb i holl bwyntiau'r cynnwys.
- Weithiau teimlid bod yr ymgeiswyr wedi dysgu sgript, gyda phob disgybl yn ateb yr un cwestiynau gyda'r un atebion.
- Ni dderbyniwyd copi o'r sefyllfa bob amser. Roedd hyn yn gwneud tasg y safonwr bron yn amhosibl weithiau.
- Defnyddiodd rhai canolfannau ymgeisydd/ymgeiswyr yn lle'r athro/athrawes fel partner/iaid yn y sgwrs sefyllfa/chwarae rôl. Ni weithiodd hyn bob tro. Cofier bod perfformiad yr ymgeisydd yn aml yn dibynnu ar berfformiad y partner. Ydy ymgeisydd arall bob amser yn gymwys?

### **Yr Ymateb Llafar i Ddarllen**

Ar y cyfan, nid yw'r dasg yma'n trafferthu cynifer o athrawon ag yn y gorffennol, er bod y modd y dehonglwyd y dasg yn dal i amrywio o ganolfan i ganolfan.

Y ddau bwynt pwysig a bwysleisiwyd droeon ydy:

- **pwysigrwydd lefel darlennedd y deunydd darllen,**
- **yr angen i ddangos dealltwriaeth o'r hyn a ddarllenwyd.**

Fel yn y gorffennol, roedd y deunyddiau darllen yn amrywio'n fawr o ganolfan i ganolfan, rhai wedi darllen nofelau fel 'Madlen', 'Dingo' ac ati, eraill wedi astudio cerddi fel 'Deg o Elyrch Gwynion' a 'Y Bocs', tra defnyddiau nifer erthyglau o 'IAW!' ar gymeriadau fel Catherine Zeta Jones a Gareth Roberts neu ar Barc McArthur Glen a'r ffasiwn. Roedd trin, trafod a chymharu dau lythyr cais yn ddewis gan sawl canolfan ac ar y cyfan, roedd y dasg yma'n effeithiol iawn.

Defnyddiwyd deunyddiau gwahaniaethol gan lawer o ganolfannau, ond mae lleiafrif yn dal i ddefnyddio'r un deunydd ar gyfer pob disgybl – o A\* i G. Fel yn y gorffennol tueddai'r deunyddiau yma i fod yn iawn ar gyfer y disgyblion canolig ond heb fod yn ddigon heriol i gyfiawnhau graddau A ac A\* i'r goreuon ar y naill law, ac yn llawer rhy uchelgeisiol i'r gweiniaid ar y llaw arall.

Roedd natur yr holi yn gwahaniaethu'n fawr hefyd. Llwyddodd llawer i drafod yr hyn a ddarllenwyd yn weddol annibynnol gan fynegi safbwynt personol a dangos dealltwriaeth o'r cynnwys ar yr un pryd. Ar y pegwn arall dim ond cyfres o gwestiynau a gafwyd mewn rhai canolfannau gydag atebion byr, parotaidd na roddai gyfle o gwbl i ddangos barn personol na llwyr ddealltwriaeth o'r hyn a ddarllenwyd. Weithiau, mewn achosion lle rhoddwyd yr un deunydd darllen i bawb, nid oedd fawr o wahaniaeth rhwng perfformiadau'r ymgeiswyr hynny a ddylai, yn ôl y ganolfan, fod wedi cael A\*, a'r rhai hynny a dargedwyd ar gyfer graddau F ac G.

Fel yn y sgwrs sefyllfa, ni dderbyniwyd copi o'r dasg bob tro. Gwna hyn waith y safonwr allanol yn llawer mwy anodd.

## YR ARHOLIAD LLAFAR – Y Dasg Pâr/Grŵp

Dilynwyd y cyfarwyddiadau gweinyddol gan y mwyafrif o ganolfannau gyda phopeth yn drefnus ac yn daclus iawn. Fodd bynnag, roedd mwy o eithriadau nag arfer. Cyrhaeddodd nifer o samplau'n hwyr, ymhell wedi'r dyddiadau penodol, a hynny heb unrhyw resymau amlwg. Gwastraffwyd llawer o amser gwerthfawr yn ceisio olrhain samplau a oedd wedi eu danfon i'r safonwyr anghywir. Ar ôl cysylltu ag un ganolfan droeon, ac yna cwyno i Swyddfa'r Post, darganfyddwyd nad oedd y sampl wedi gadael y ganolfan yn y lle cyntaf.

Daeth nifer o samplau i law heb y manylion perthnasol arnynt o gwbl, a rhai canolfannau heb nodi'r marciau cywir ar y ffurflenni, eraill heb fanylion ar gloriau'r casetiau/cryno ddisgiau, ond nid oedd yr un ohonynt gynddrwg â'r ganolfan ganlynol:

'Derbyniwyd dau gryno-ddisg gyda dau ddarn bach pitw o bapur tu fewn iddynt gyda'r wybodaeth *GCSE Full* ar un ohonynt a *GCSE Short* ar y llall (yn uniaith Saesneg). Dyna'r unig wybodaeth a gafwyd. Nid oedd enw na rhif y ganolfan ar y cloriau nac ar y cryno-ddisgiau chwaith. Nid oedd unrhyw wybodaeth am yr ymgeiswyr arnynt. Roedd enwau'r ymgeiswyr ar y ffurflenni ond mewn trefn wahanol i'r hyn a glywyd ar y cryno ddisgiau. Yn waeth fyth, ni chafwyd unrhyw wybodaeth ar y recordiadau chwaith – ni chlywyd llais yr athro (neu'r athrawes neu'r athrawon) o gwbl – dim enw'r ganolfan, dim teitl yr arholiad, dim haen, dim cyflwyno aelodau'r gwahanol grwpiau, dim cyfraniad o gwbl yn ystod y sgysiau – DIM BYD. Cafwyd un pâr yn sefyll yr haen uwch (Cwrs Llawn) sef disgybl o'r ysgol a myfyrwraig aeddfed. Cafwyd 10 pâr neu grŵp yn sefyll y sylfaenol. Cafodd yr un ddisgybl honno yn yr haen uwch fwy o gymorth gan y fyfyrwraig aeddfed nag i'r holl ymgeiswyr eraill gael gan yr athro (neu'r athrawes neu'r athrawon) gyda'i gilydd – yn wir, ni chawsant fymryn o gymorth o gwbl. **MAE'N DDYLETSWYDD AR YR ATHRAWON I YMYRRYD YN ADEILADOL YN ÔL YR ANGEN ER MWYN SICRHAU BOD YR YMGEISWYR YN ATEB GOFYNION YR ARHOLIAD.**

Roedd y sgysiau i gyd yn rhy fyr o lawer i gyfiawnhau marciau'r ganolfan - 17½ munud i recordio 10 grŵp yn y sylfaenol. Roedd y pâr uwch yn rhy fyr hefyd. Collwyd marciau cynnwys felly, ac os ydy'r cynnwys yn annigonol ni cheir cymaint o gyfle i arddangos gallu ieithyddol. Yn sicr, ni chafodd yr ymgeiswyr y cyfle na'r chwarae teg y dylsent fod wedi ei gael.'

Fel y gwelir bydd y ganolfan yn ymwybodol o'r ffaeledau uchod ond a weithredir arnynt? Yn anffodus mae ambell ganolfan yn anwybyddu'r adroddiadau'n gyfangwbl ac felly'n euog o'r un ffaeledau'n flynyddol. Diolch i'r drefn mai lleiafrif bychan ydynt. Ond yn anffodus, mae'r lleiafrif hwnnw'n rhoi enw drwg i'r nifer fawr o athrawon brwdfrydig, cydwybodol sydd yn y proffesiwn.

Roedd rhai canolfannau eraill, wrth gwrs, yn euog o un neu fwy o'r ffaeledau uchod ac o rai o'r ffaeledau a nodir yn flynyddol yn yr adroddiadau. Ar ôl dweud hynny rhaid diolch i'r canolfannau hynny sydd yn ymateb i'r sylwadau ac yn gweithredu arnynt.

I fod yn fwy positif cafwyd gwaith arbennig gan nifer fawr o ganolfannau, gyda'r ymgeiswyr gorau yn trin a thrafod yn hyderus ac yn ymestynol a'r athrawon yn cyfrannu'n ddeallus ag yn effeithiol gan ymyrryd yn adeiladol yn ôl yr angen.

Fel arfer, trafodwyd a mynegwyd barn aeddfed ar amrywiaeth eang o destunau – y gosodiadau, y lluniau a'r symbyliadau fideo bron i gyd. Cafwyd enghreifftiau di-ri' o barau a grwpiau'n trafod yn ddeheuig gan siarad yn hollol rhwydd a naturiol heb ddibynnu'n ormodol ar y cof o gwbl. Cafwyd holi pwrpasol gan athrawon er mwyn hwyluso'r fath sgysiau ac er mwyn sicrhau cyflawni gofynion y dasg a'r cynllun marcio. Ymhlith y goreuon roedd y cydadweithio rhwng y disgyblion yn ganmoladwy iawn, a chafwyd trafodaethau aeddfed a synhwyrol ynghyd â'r gallu i fynegi barn bendant. Defnyddiwyd ystod eang o amserau'r ferf, o batrymau ieithyddol ac ati, gyda'r ymgeiswyr yn dangos eu bod yn medru ar iaith glir a chywir ar y lefel uchaf. Fodd bynnag, yn y Sylfaenol ac weithiau yn yr Uwch mewn llawer o ganolfannau roedd tueddiad i or-ddibynnu ar gwestiynau'r athro/athrawes yn hytrach na holi ac ateb ei gilydd. Ar y llaw arall, mewn rhai canolfannau doedd dim digon o holi gan yr athro/athrawes pan oedd ei angen, ac roedd hyn yn tueddu i lesteirio tipyn ar naturioldeb y sgwrs. Gan ailadrodd y bregeth flynyddol, **mae'n bwysig cofio ei bod hi'n ddyletswydd ar yr athro / athrawes i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ceisio cyflawni holl ofynion y dasg gan eu harwain, os oes angen, drwy 4 cam yr Haen Sylfaenol a 3 cham yr Haen Uwch. Hefyd dylid ceisio sicrhau eu bod yn ateb gofynion y cynllun marcio ar eu lefelau arbennig nhw.** Gellir meddwl am un ganolfan gyda'r pâr gorau ar farciau o 38. Ni chyfeiriwyd at y gosodiad o gwbl (colli 2 farc). Anwybyddwyd cam 3 – crynhoi/dod i gasgliad (colli 2 farc). Yn ogystal roedd y drafodaeth ychydig yn llai na 3 munud lle disgwyllir tua 6-8 munud, crwydrwyd oddi ar y testun oedd dan sylw, ond ni chafwyd cyfraniad gan yr athrawes o gwbl.

Yn Haen Uwch y Cwrs Llawn y pynciau mwyaf poblogaidd oedd 'Mae ymarfer yn fwy pwysig na bwyta'n iach' (gosodiad prawf A), y gosodiad 'Mae'n braf bod yn ifanc (prawf B), 'Yr ardal – y wlad neu'r ddinas' (lluniau prawf C) a'r deunydd fideo am yr ardal (profion A a B). Yn y Cwrs Byr dewiswyd 'Rhaglenni Teledu' (lluniau prawf A), 'Diddordebau' (fideo profion A a B), 'Chwaraeon' (lluniau prawf B), 'Ffilmiau' (lluniau prawf C) ac 'Amser Hamdden' (lluniau prawf CH) gan y mwyafrif.

Yn y Sylfaenol y dewisiadau amlaf oedd Diddordebau, Operâu sebon, Amser hamdden, Gwyliau, Byd y ffilmiau, Chwaraeon/Chwaraewyr, Canu pop, Rhaglenni teledu a Profiad gwaith.

Braf, unwaith eto, oedd gweld rhai canolfannau'n defnyddio tasgau gwahanol ar gyfer pob un o'r parau/grwpiau (yn y sylfaenol a'r uwch), felly'n defnyddio 5 testun ar gyfer 5 pâr/grŵp. Ni ellir cyhuddo'r canolfannau yma o ganolbwyntio ar un neu ddau destun – roedd hi'n amlwg eu bod wedi astudio yr holl ystod o bynciau, mwy neu lai.

Roedd canolfannau eraill, fodd bynnag, yn defnyddio'r un dasg ar gyfer pawb, a oedd yn awgrymu'n gryf eu bod wedi canolbwyntio ar destun y dasg honno. Weithiau, yn yr achosion yma, roedd sgysiau pob grŵp yn dilyn yr un patrwm, gan ddefnyddio'r un eirfa, yr un ymadroddion a.y.y.b. a oedd yn awgrymu gor-baratoi. Yr unig wahaniaeth oedd bod y goreuon yn ynganu, yn pwysleisio ac yn seibiannu'n well. Weithiau teimlid eu bod wedi dysgu (neu geisio dysgu) sgrïpt. Yn yr achosion yma, roedd ymgeiswyr yn llwyddo i drafod y testun dan sylw am tua hanner munud ac yna'n amlwg yn mynd ati i adgynhyrchu beth roedden nhw wedi'i ddysgu, weithiau heb unrhyw gysylltiad â'r testun gwreiddiol.

I grynhoi, a bod yn ail-adroddus, dyma rai o'r ffaeiddau rheolaidd:

- Roedd rhai o'r sgysiau'n rhy fyr i gyfiawnhau'r marciau a roddwyd gan y ganolfan.
- Cafwyd trafod amherthnasol gan rai grwpiau yn arbennig pan oeddent yn crwydro'n ormodol oddi ar y testunau dan sylw i siarad am y testun (efallai'r unig destun) roeddent wedi ei baratoi.

- Collwyd marciau gan rai ymgeiswyr drwy fethu cyflawni holl gamau'r dasg.
- Mewn lleiafrif o ganolfannau ni chafwyd digon o holi (weithiau dim holi o gwbl) gan yr athro/athrawes er mwyn creu sgwrs fwy naturiol, neu er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cyflawni holl ofynion y dasg (fel yn y pwynt blaenorol) er mwyn ateb y gofynion a'r cynllun marcio.
- Weithiau roedd tueddiad i ailadrodd yr un patrwm ieithyddol (e.e. 'rydw i'n hoffi/rydw i eisiau) heb unrhyw amrywiaeth o gwbl mewn ambell ganolfan. Ni ddisgwylir llawer mwy na hyn gyda'r gweiniaid, ond gyda goreuon yr Haen Sylfaenol hyd yn oed, disgwylir amrediad o amserau'r ferf ac amrywiaeth o batrymau brawddegol ac ati.
- Cafwyd gorddibynnu ar y cof weithiau (roedd hyn yn wir am yr Haen Uwch efallai yn fwy na'r Sylfaenol).

Fel canlyniad i daith flynyddol y prif arholwr o gwmpas canolfannau mae un neu ddau beth wedi dod i'r amlwg. Ar y dydd Gwener, diwrnod cyntaf arholiad y cwrs llawn, ymwelwyd â thair canolfan mewn un ardal. Roedd dwy ohonynt wedi gohirio cynnal yr arholiad tan y dydd Llun. Ni ddylid gwneud hynny heb ganiatâd CBAC, a rhaid bod yna reswm/rhesymau digonol. Prif ddiwrnod yr arholiad ydy'r diwrnod cyntaf. Mae'r ail ddiwrnod ar gyfer y canolfannau lle mae un dydd yn annigonol. Ychwanegwyd y trydydd dydd ar gyfer y canolfannau hynny lle ceir tua 200 a mwy o ymgeiswyr. Yn achos un o'r ddwy ganolfan uchod (dim ond chwech ymgeisydd), cynhaliwyd yr arholiad ar y dydd Llun gan ddefnyddio profion y dydd Gwener. Pam? Yn achos y llall mae'n amheus a oedd yna fwriad i arholi pawb – dim ond disgyblion y sampl. **Cofier mai arholiad ydyw, felly mae'n rhaid recordio pawb.**

Ar wahân i'r gwendidau uchod mewn lleiafrif o ganolfannau, roedd safon y dasg pâr/grŵp yn dda iawn eleni eto. Llongyfarchiadau!



## **YR ARHOLIAD GWRANDO A DEALL**

Braf oedd gweld marciau tipyn gwell eleni nag yn ddiweddar. Ni chafwyd cynifer o ymgeiswyr heb wneud unrhyw ymdrech i ateb rhai cwestiynau, yn arbennig y gridiau yn y Sylfaenol a'r cwestiwn olaf, y cyfweiliad, yn yr Uwch.

### **Y Cwrs Llawn**

#### ***Haen Sylfaenol C.1***

Cafodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr farciau uchel yn y cwestiwn yma ond ychydig iawn a lwyddodd i gael y marciau llawn eleni. Cafodd y mwyafrif eu camarwain gan eitem 2 sef 'Rydw i'n byw mewn pentref bach yn ymyl llyn mawr'. O glywed y gair 'pentref' aeth bron pawb yn syth am PENTREMAWR. Eitem dda i wahaniaethu ond o ail-feddwl, braidd yn anheg ar y lefel yma. Camarweiniwyd rhai gan lun y siop (y caban) yn eitem 3 ac yn yr eitem olaf roedd rhaid derbyn dau lun, y cyntaf a'r trydydd, gan y gallai'r naill a'r llall gynrychioli 'tafarn'.

#### ***Haen Sylfaenol C.2***

Cafwyd ymateb da i'r cwestiwn yma gyda'r mwyafrif yn dangos eu bod wedi deall tipyn o'r sgwrs rhwng Glyn a Rhian ac felly'n ennill marciau llawn, mwy neu lai.

Eitem 5 (y pris), eitem 7 (cyplysu Rhagfyr a'r Gaeaf) ac eitem 8 (chwarter i / chwarter wedi) achosodd y prif broblemau. Achosodd 'gorsaf yr heddlu' broblem i rai hefyd.

#### ***Haen Sylfaenol C.3a / Haen Uwch C.1a***

Y cwestiwn grid am brynu anrhegion i ffrind yn yr ysbyty.

Fel y gellid disgwyl gyda'r cwestiwn gorgyffwrdd (fel C.1b), perfformiodd ymgeiswyr yr Haen Uwch dipyn yn well na rhai'r Haen Sylfaenol. Ar ôl dweud hynny braf yw nodi i lawer llai o ymgeiswyr y Sylfaenol roi'r ffidl yn y to cyn ateb y gridiau.

Syndod oedd gweld rhai ymgeiswyr da yn colli marciau yn y golofn 'Faint o arian?' Mae'n amlwg fod 'pymtheg' ac 'ugain' yn eiriau anghyfarwydd i nifer. Yn aml cafwyd rhan o ateb e.e. 'Duffy yn canu' yn lle 'yn dwlu ar (hoffi) Duffy yn canu' neu 'storïau caru' yn lle 'mwynhau storïau caru'. Cafwyd peth problemau gyda 'cerddoriaeth glasur' a sillafu geiriau fel 'ffrwythau', 'basged', 'ffasiynol' a 'siaced'.

#### ***Haen Sylfaenol C.3b / Haen Uwch C.1b***

Cafwyd perfformiadau gwell nag arfer yn y grid yma eto gydag ymgeiswyr yr Haen Sylfaenol yn gwneud yn well nag arfer a llai yn anwybyddu'r cwestiwn yn gyfangwbl. Yma eto cafwyd rhannau o atebion weithiau fel 'bendigedig' yn lle 'mynyddoedd bendigedig'. Rhoddwyd atebion fel 'sgio' a 'hydref' yng ngholofn 'BLE?' a siomedig oedd cael cynifer yn methu sillafu 'Cymru' yn gywir yn yr un golofn. Fodd bynnag, ymatebion boddhaol iawn ar y cyfan.

#### ***Haen Uwch C.2***

Ni chafwyd problemau cyson gyda'r cwestiwn yma eleni eto – heblaw am yr eitem olaf unwaith eto sef yr eitem am y tywydd (bydd y glaw yn mynd dros nos a bydd yfory'n heulog ym mhobman). Yr ateb cywir, wrth gwrs, oedd y blwch olaf ond o glywed y gair 'glaw' aeth nifer o ymgeiswyr yn syth at un o'r blychau eraill. Y goreuon, bron yn ddieithriad, gafodd yr elfen hon yn gywir.

Cafwyd rhai problemau eraill wrth gwrs ond ni achosodd yr un elfen arall fwy o benbleth na'r gweddi. Doedd rhai ddim yn gwybod y gwahaniaeth rhwng ceffyl a dafad, eraill rhwng côr a thîm pêl-droed ond cafwyd ymateb da iawn i'r cwestiwn yma ar y cyfan.

### **Haen Uwch C.3**

Dyma'r cwestiwn lle dangoswyd y gwelliant mwyaf. Yn sicr fe wnaeth llawer mwy yr ymdrech i ateb holl adrannau'r cwestiwn. Anodd gwybod pam. Nid oedd yn haws nag arfer. Efallai bod y cyfeiriad at Pendulum a'r Mighty Boosh wedi tanio dychymyg yr ymgeiswyr ar y dechrau ac yna'r cyfeiriadau at Nicole Cooke a Geraint Thomas yn y Gêmau olympaidd a'r tatws yn Salon Sheryl yn nes ymlaen.

Atebwyd adrannau 1 a 2 yn arbennig o dda ar y cyfan. Cafwyd trafferthion weithiau wrth gyfeirio at y 'canu mewn côr' a'r rhaglen *Last Choir Standing* yng nghwestiwn 4 a hefyd cafwyd 'pêl-rwyd' yn lle 'chwarae pêl-rwyd' weithiau yng nghwestiwn 6.

Cafwyd llawer gwell ymateb i adrannau 3 a 4 hefyd. Y problemau mwyaf oedd cwestiwn 7(ii) - meddwl y dylai Cymru gystadlu fel gwlad yn y Gêmau Olympaidd a chwestiwn 9 – Pam fasai Llinor yn gadael Caerdydd? Ar wahân i hynny cafwyd ymdrechion canmoladwy iawn.

### **Y Cwrs Byr**

Fel yn y Cwrs Llawn roedd y marciau dipyn gwell na'r llynedd, ac ar yr un pryd yn sylweddol well na'r blynyddoedd blaenorol. Ni dderbyniwyd cynifer o sgrïptiau gwag eleni. Mae'n bryder mawr, fodd bynnag, fod mwy a mwy o ymgeiswyr yn sefyll y cwrs yma – llawer iawn ohonynt yn ddigon galluog i ddisgleirio yn y Cwrs Llawn ac hyd yn oed yn yr Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn y dyfodol. Yn waeth fyth, mae nifer o'r disgyblion galluog yma'n sefyll yr Haen Sylfaenol gan mai dyna'n unig a gynigir iddynt mewn rhai canolfannau. Fel y dywedwyd yn adroddiad y llynedd mae hyn yn fygythiad mawr i ddyfodol y Gymraeg yn ein hysgolion.

### **Haen Sylfaenol C.1**

Unwaith eto, roedd y perfformiadau yn y cwestiwn yma'n arbennig o dda gyda'r mwyafrif, mwy nag arfer, yn ennill marciau llawn, heb unrhyw eitem yn achosi llawer o broblemau.

### **Haen Sylfaenol C.2**

Cafwyd canlyniadau boddhaol iawn yma eto – y mwyafrif yn sgorio'n sylweddol ond yr un gwendidau ag yn y Cwrs Llawn – y pris (eitem 3) a'r amser – chwarter i/chwarter wedi (eitem 4).

### **Haen Sylfaenol C.3 / Uwch C.1**

Y cwestiwn grid am wyliau ysgol. Ymdrechion tebyg i'r cwrs llawn – ymgeiswyr yr Haen Uwch yn gwneud tipyn gwell na rhai'r Haen Sylfaenol ond llawer llai ohonynt heb wneud ymdrech o gwbl. Cafwyd yr un camgymeriadau ag yn y Cwrs Llawn.

### **Haen Uwch C.2**

Pump o eitemau newyddion yr Haen Uwch gyda'r un problemau ag yn yr haen honno – gydag eitem y tywydd yn achosi'r broblem fwyaf.

### **Haen Uwch C.3**

Gweler y Cwrs Llawn (Adran 1 ac Adran 2 yn unig).

## **Gwaith Cwrs Ysgrifennu a Darllen**

Mae'r gwaith cwrs bellach yn ddull hwylus a defnyddiol i ymgeiswyr ddangos eu gallu i ysgrifennu a darllen darnau diddorol ac estynedig. Mae'r gwaith ysgrifennu yn sicr wedi hen ennill ei blwyf ac mae'r athrawon yn deall beth yw gofynion y gwahanol dasgau asesu. Maent bellach yn gosod tasgau addas a diddorol ar gyfer eu disgyblion ac yn sicrhau bod y tasgau hyn yn gwahaniaethu'n dda rhwng disgyblion o wahanol alluoedd.

Efallai bod lle o hyd i arbrofi gyda thestunau newydd a ffres ar gyd-destunau Llên a Llun. Fel y soniwyd llynedd gellir defnyddio'r teledu a'r we fel cyfrwng i symbylu gwaith ysgrifennu diddorol sy'n apelio at ddiddordebau gwahanol ddisbyglion.

## **Ymatebion ysgrifenedig i waith Darllen**

Erbyn hyn mae mwyafrif llethol yr athrawon yn dewis darnau darllen addas ar gyfer eu hymgeiswyr. Mae'r darnau hyn yn addas o ran lefel darlennedd a hefyd o ran testunau. Ar y cyfan mae'r dulliau asesu wedi eu dethol yn ofalus i sicrhau eu bod yn dangos dealltwriaeth yr ymgeiswyr o'r darnau hynny. Maent yn rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ysgrifennu rhan o'r gwaith gan ddefnyddio eu geiriau eu hunain ar ffurf paragraff neu ffurf ysgrifenedig mwy estynedig.

Mae nifer fach o athrawon o hyd heb ddeall pwrpas y tasgau hyn. Eu prif wendidau yw defnyddio'r darnau darllen cyfan neu ran ohonynt fel symbyliad yn unig i waith ysgrifennu h.y. nid yw'r asesu yn dangos dealltwriaeth yr ymgeiswyr o'r darnau darllen. Weithiau ceir nifer o gwestiynau sy'n asesu dealltwriaeth yn ddilys ac yna, yn aml, ar ddiwedd y gwaith ddau neu dri o gwestiynau, yn aml ar gyfer ysgrifennu cydlynus nad ydynt yn asesu dealltwriaeth o gwbl e.e. Ar ôl darllen darn ar yr amgylchedd - cwestiynau megis 'Beth ydych chi'n wneud i helpu'r amgylchedd yn eich ardal chi?' Y cwbl sydd angen ei wneud i wneud cwestiwn o'r fath yn ddilys yw gofyn - 'Ydych chi'n gwneud pethau tebyg (i'r darn darllen) yn eich ardal chi? Beth?'

## **Arholiad Cwrs Llawn Darllen ac Ysgrifennu**

### **Cwestiwn 1 (i)**

Mae'r cwestiwn hwn yn asesu dealltwriaeth o eirfa ac ymadroddion sylfaenol megis amser, rhifau, arian, dyddiau'r wythnos, misoedd y flwyddyn ayyb. Mae'r eirfa hon yn ymddangos mewn paragraffau sylfaenol ar gyd-destunau megis yr ysgol, yr ardal, amser hamdden, y teulu ayyb. Cafwyd ymateb da i'r dasg hon eleni eto a thystiolaeth bod yr ymgeiswyr yn gwirio eu gwaith yn ddeallus.

### **I godi safonau**

- (i) dylai'r gweiniaid adolygu'r testunau uchod
- (ii) gymryd digon o amser i ystyried y 4 dewis yn fanwl
- (iii) edrych dros eu gwaith

### **Cwestiwn 1 (ii)**

Darllen nodyn oedd y dasg eleni a'r geiriau gofynnol Pa? a Phryd? achosodd mwyaf o drafferth i'r gweiniaid. Roedd Pryd hefyd yn un o'r cwestiynau yn y print bras ar gyfer yr ateb e-bost. Eto gwelwyd nad oedd y gweiniaid yn deall ei ystyr.

### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) adolygu'r ffurfiau gofynnol – yn enwedig Pa, Pryd, Sawl, Pam.
- (ii) ymarfer ymateb i e-bost, nodyn a llythyr.
- (iii) edrych dros eu gwaith gan sicrhau eu bod yn ateb y cwestiwn e.e. Os Faint o'r gloch? yw'r cwestiwn – eu bod yn rhoi amser yn yr ateb.

### **Cwestiwn 2**

- (i) Mae'r mwyafrif llethol yn gallu ysgrifennu paragraff ar destunau cyfarwydd yn llwyddiannus. Mae'n bwysig bod y gweiniaid yn cael digon o ymarfer ar hyn oherwydd mae perfformiad da yma yn rhoi hyder iddynt ar gyfer gweddill y papur.

### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) ail ddarllen y paragraffau yn C1 er mwyn ymgyfarwyddo â chystrawen sylfaenol y frawddeg.
- (ii) sicrhau eu bod yn cynnwys o leiaf 8 ffaith yn y paragraff.

Rhan (ii) Mae'r ymgeiswyr bellach yn eithaf llwyddiannus yn ymateb i dasg o'r fath sy'n gofyn am ysgrifennu llythyr byr, nodyn, e-bost neu ddisgrifiad. Gan fod y gofynion i gyd yn Saesneg maent yn sicrhau eu bod wedi cyflawni pob adran trwy roi tic wrth ochr y gofynion wrth eu gwneud.

### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) sicrhau bod eu hymatebion yn ddealladwy o ran cystrawen – gellir defnyddio cystrawen nodyn os dymunir.
- (ii) ateb pob adran yn llawn.

### **Cwestiwn 3**

Cafwyd ymateb da i'r adran hon gan fwyafrif yr ymgeiswyr. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod pum paragraff yn y darn darllen a chwestiynau yn y rhan gyntaf ar bedwar ohonynt. Felly rhaid bod yn ofalus eu bod yn ymateb i'r adrannau cywir.

Wrth gwrs wrth gyflawni'r ail ran gallant ddefnyddio'r pum paragraff. Ar y cyfan cafwyd ymatebion llwyddiannus i'r tair adran gyntaf - y bedwaredd adran oedd yn gwahaniaethu rhwng y goreuon a'r canolig.

### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) dalu sylw i'r cwestiwn ym mhob bocs gan sicrhau eu bod yn ymateb yn briodol e.e. Os oes Pam? Yna dylid cynnwys rheswm – achos..., os oes Ble? Dylid cynnwys lle ayyb. Gall edrych yn dechnegol fel hyn yn y dosbarth feithrin arfer dda sy'n codi'r marc yn sylweddol.
- (ii) Sicrhau eu bod yn ysgrifennu brawddegau llawn sy'n cynnwys berf yn rhan dau. Yn aml mae brawddegau syml iawn yn gwbl addas e.e. 'Mae Bethan yn hoffi chwarae golff a Jac yn hoffi dringo'

### **Cwestiwn 4**

I ennill marciau da yn y dasg hon o ysgrifennu erthygl fer edrychir am gynnwys diddorol sy'n rhoi manylion am y tri phwynt. Er mwyn cael y marciau uchaf bydd ymgeiswyr yn ymestyn rhai o'r pwyntiau ac yn defnyddio cystrawen sylfaenol gywir ar y cyfan.

### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) sicrhau eu bod yn cynnwys rhesymau lle gofynnir am hynny.
- (ii) ysgrifennu brawddegau llawn sy'n cynnwys berf.
- (iii) sicrhau eu bod yn ysgrifennu tua chant o eiriau.

### **Cwestiwn 5 ( Haen sylfaenol) Cwestiwn 1 (Haen uwch)**

Bellach mae llawer o'r ymgeiswyr wedi ymgyfarwyddo â gofynion y rhan gyntaf o'r dasg hon. Maent yn sylweddoli bod y proffil yn gyffredinol yn dilyn rhediad y sgwrs. Fodd bynnag mae angen talu sylw manwl i'r gwahanol ffeithiau yn y darnau er mwyn ennill marciau da. Mae'r ail ran yn dal i achosi peth trafferth ac mae ymgeiswyr o bob gallu yn colli marciau yn ddianghenraid.

### **Rhaid ail adrodd gofynion y dasg sef**

- (i) rhaid i'r cwestiwn ymwneud â thestun y sonnir amdano yn y darn – felly gellir son am ysgol, cerddoriaeth, coleg, gwaith rhan-amser, chwaraeon ayyb.
- (ii) ni ellir gofyn cwestiwn am bethau lle ceir yr ateb yn y darn. Felly ni cheir marciau am gwestiynau fel – 'Ydych chi'n hoffi rygbi?' 'Aethoch chi i brifysgol Manceinion?'
- (iii) ni cheir marciau chwaith am gwestiwn fel 'Ydych chi'n hoffi Katherine Jenkins' oherwydd ni sonnir amdani yn y darn.

### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) dalu sylw manwl i'r hyn sy'n gwneud cwestiwn yn ddilys yn yr ail ran
- (ii) sicrhau eu bod yn gallu ysgrifennu cwestiwn syml yn gywir
- (iii) adolygu'r ffurf 'ydy' yn y cwestiwn e.e. Beth ydy .. ? Pwy ydy ...?

### **Cwestiwn 6 (sylfaenol) 2 (uwch)**

Ymatebodd yr ymgeiswyr canolig ac uwch eu gallu yn dda i'r cwestiwn hwn. Mae'r cynllun marcio yn tynnu ein sylw at ddefnyddio amser priodol y ferf e.e. gyda 'y flwyddyn nesa' – mae angen cyfleu y dyfodol. Hefyd y gallu i fynegi rhesymau yn synhwyrol a diddorol. Mae cyfathrebu llwyddiannus yn un o ofynion creiddiol y dasg hon.

#### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) ddysgu'r eirfa ar gyfer y gwahanol destunau yn y Maes Llafur Sylfaenol – pethau megis cyfleusterau yn yr ardal, siopa, cyfrifiaduron ayyb
- (ii) ymarfer newid amser y ferf i'r Gorffennol a'r Dyfodol.

### **Cwestiwn 3**

Prif wendid yr ymgeiswyr is eu gallu yw eu bod yn ceisio copïo adrannau cyfan o'r llythyrau yn lle dewis y wybodaeth berthnasol o'r darn. Mae tystiolaeth hefyd bod rhai ymgeiswyr da yn rhuthro'r cwestiwn hwn ac yn gwneud camgymeriadau o'r herwydd e.e. Ddim yn darllen y gosodiad yn ddigon manwl.

#### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) ddarllen y gosodiad yn fanwl gan dalu sylw a yw'n gadarnhaol neu'n negyddol.
- (ii) Dewis y rheswm yn ofalus i gadarnhau safbwynt y person. Nid oes angen mwy nag un rheswm.
- (iii) Ysgrifennu ymatebion syml, cywir yn yr ail ran sy'n rhoi rheswm personol.

### **Cwestiwn 4**

Yr adran ar alcohol a chyffuriau oedd y mwyaf poblogaidd o ddigon a chafwyd erthyglau rhagorol. Roedd tystiolaeth o baratoi gofalus o ran geirfa a chystrawen ac roedd gwaith y goreuon o safon uchel iawn. Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar fynegi barn ac mae'r ymgeiswyr uwch hefyd yn trafod y testunau hyn yn y gwaith grŵp.

#### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) adolygu'r testunau uwch sy'n addas ar gyfer mynegi barn. e.e. ysmegu, dylanwad ffasiwn a sêr y byd chwaraeon a'r cyfryngau.
- (ii) Sicrhau bod ganddynt resymau aeddfed a gwahanol er mwyn ennill y marciau uchaf.

## **Cwestiwn 5**

Yn ôl yr arholwyr, apeliodd yr erthygl hon at y bechgyn yn ogystal â'r merched a llwyddodd ymgeiswyr Gradd C i ateb y cwestiynau cyntaf yn gywir ar y cyfan.

Llwyddodd y goreuon i ysgrifennu paragraff cytbwys o ran rhoi dau reswm o blaid a dau yn erbyn y gosodiad 'Mae ennill gormod o arian yn broblem fawr i bobl ifanc enwog'. Roeddynt wedi codi eu rhesymau o'r darn ac roedd ganddynt elfen dda o gywirdeb o fewn y paragraff.

### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) is eu gallu – ddyfalbarhau a pheidio rhoi'r ffidil yn y to oherwydd gallant yn sicr ateb rhai o'r cwestiynau'n llwyddiannus.
- (ii) uwch eu gallu – ganolbwyntio ar godi lefel cywirdeb yr ail adran er mwyn ennill y graddau uwch.

## **Cwestiwn 6**

Mae'r testunau hyn yn heriol a'r goreuon yn unig llwyddodd i wneud cyfiawnder â'r testunau. (a) oedd y testun mwyaf poblogaidd ac ar y cyfan cafwyd ymdriniaeth lawn a hyderus gan y goreuon. Gan fod chwe chwestiwn i'w ateb mewn dwy awr nid oes amser i ysgrifennu'n estynedig iawn ar y testun. Felly mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn cadw'n dynn at y testun.

### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) ganolbwyntio ar gywirdeb o ran cystrawen a geirfa.
- (ii) fod yn uchelgeisiol o ran datblygiad y llythyr ac yn ein hargyhoeddi o ran eu syniadau a'u safbwyntiau.
- (iii) ysgrifennu'n destunol ac osgoi cynnwys pethau amherthnasol.

## **Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr**

Roedd cynnydd eto eleni yn nifer yr ymgeiswyr, ond fel y llynedd, roedd tua 10% heb ysgrifennu unrhyw beth o gwbl yn yr adrannau ysgrifennu. Mae hyn yn siom aruthrol nid yn unig i'r arholwyr ond hefyd i'w hathrawon.

### **Arholiad Darllen ac Ysgrifennu**

#### **Cwestiwn 1(i)**

Mae'r dasg asesu di-iaith hon yn apelio at yr ymgeiswyr ac fel arfer cafwyd ymateb da. Cwestiynau 5 a 6 achosodd y drafferth fwyaf ond dylai'r geiriau 'gwyddoniaeth' a 'drama' fod yn gyfarwydd iddynt.

### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) ystyried y pedwar dewis cyn rhoi tic yn y bocs.
- (ii) ail ddarllen y darnau cyn dod i benderfyniad.

### **Cwestiwn 1 (ii)**

Collodd rhai farciau ar C1 trwy gynnwys dau enw yn lle tri. Dylai'r 3 marc eu hatgoffa bod tri pheth yn yr ateb. Eleni eto roedd hi'n amlwg nad oedd ymgeiswyr gwan yn deall y cwestiynau Sut? Pa fath? Pryd? Mae llawer o ymgeiswyr gwan yn anwybyddu (b) ac o'r herwydd yn colli 2 farc cymharol hawdd.

#### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) adolygu'r geiriau gofynnol, yn enwedig Sut? Pa fath? Pryd? Hefyd cwestiynau syml megis Wyt ti?
- (ii) gwneud ymdrech yn (b).

### **Cwestiwn 2**

Llwyddodd tua 80% o'r rhai gwblhaodd y cwestiwn hwn i gael 15 o farciau neu fwy. Mae hyn yn galonogol iawn ac yn brawf fod disgyblion yr haen hon yn gallu ysgrifennu ar destunau cyfarwydd syml yn llwyddiannus.

#### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) dalu mwy o sylw i gywirdeb – sef cystrawen greiddiol y frawddeg.

### **Cwestiwn 3 (Cwestiwn 1 Uwch)**

Cafwyd ymateb da i'r dasg o ddarllen llythyr ar gyd destunau cyfarwydd. Mae angen darllen y llythyr yn ofalus i ddod o hyd i'r atebion cywir. Cafwyd tipyn o gymysgu enwau personol a misoedd yn yr atebion sy'n dangos diffyg canolbwytio.

Mae'r ymateb i'r ail ran (ii) wedi gwella a chafwyd cwestiynau synhwyrol a chywir gan y goreuon, megis:

Pryd mae eich arholiad nesa?  
Beth ydy enw siop trin gwallt Jane?  
Pwy wyt ti'n ffansio yn yr ysgol?  
Wyt ti'n mynd ar wyliau ym mis Mehefin?

#### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) ymarfer ysgrifennu cwestiynau ar gyfer rhan (ii).
- (ii) rhoi cyfle i ddisgyblion farcio gwaith ei gilydd yn rhan (ii) a thrafod dilysrwydd y cwestiynau.
- (iii) darllen y darnau yn ofalus a gwirio eu gwaith.

### **Cwestiwn 4 (Cwestiwn 2 Uwch)**

I gyflawni'r dasg hon yn llwyddiannus edrychir am ymdriniaeth ddiddorol, gweddol uchelgeisiol a chynhwysfawr o'r 3 phwynt. Edrychir am gystrawen gywir ac adnoddau ieithyddol sy'n galluogi'r ymgeisydd i fod yn weddol uchelgeisiol o ran disgrifiadau, syniadau a barn.

Yn sicr cafwyd hynny gan nifer helaeth yn yr haen uwch.



### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) yr haen sylfaenol - ganolbwyntio ar wella eu cystrawen greiddiol e.e. fy hoff.. ydy .. rydyn ni, mae'n gas gyda fi / gen i.
- (ii) dysgu ansoddeiriau mwy uchelgeisiol. e.e. ardderchog, rhagorol, diflas, anobeithiol.

### **Cwestiwn 3 (Uwch)**

Eleni eto cafwyd ymatebion da iawn i'r dasg hon. Fel y dywedwyd llynedd, mae'n amlwg bod gan y goreuon y gallu i ymdopi'n llwyddiannus â'r cwrs llawn ac mae'n siomedig nad ydynt yn cael y cyfle.

Dylai'r ymgeiswyr is eu gallu yn yr haen hon ddarllen y cwestiynau yn fwy gofalus gan geisio yn y lle cyntaf ddod o hyd i'r adran yn y darn darllen sy'n delio â'r pwynt. Wedyn gallant edrych am y manylion e.e. C4. Mae 4 marc am atebion eithaf syml ar ôl dod o hyd i'r wybodaeth.

### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) ymarfer y dasg o ddweud beth sy'n debyg ac yn wahanol rhwng sefyllfaoedd.
- (ii) ysgrifennu brawddegau i gytuno ac anghytuno a rhoi rhesymau.

### **Cwestiwn 4 (uwch)**

Mae'r goreuon yn yr haen hon yn ysgrifennu'n hyderus, yn ddiddorol a chydag elfen gref o gywirdeb. (b) oedd y testun mwyaf poblogaidd a chafwyd syniadau da am bethau buddiol y gallai pobl ifanc wneud yn eu hardaloedd. Soniodd rhai am gael clwb lle'r oedd pobl ifanc yn cyfarfod ac yn helpu pobl ddifreintiedig a'r henoed. Soniodd eraill am gael mwy o gyfleusterau hamdden ar gyfer yr ifanc.

### **I godi safonau dylai ymgeiswyr**

- (i) ail ddrafftio eu gwaith yn yr ystafell ddosbarth er mwyn codi safonau cywirdeb.
- (ii) cadw llyfryn o'u camgymeriadau a'r ffurfiau cywir.



WJEC  
245 Western Avenue  
Cardiff CF5 2YX  
Tel No 029 2026 5000  
Fax 029 2057 5994  
E-mail: [exams@wjec.co.uk](mailto:exams@wjec.co.uk)  
website: [www.wjec.co.uk](http://www.wjec.co.uk)